

Penwythnos y Rhinogydd

Tyddyn y Llidiart, Llanbedr, Gwynedd LL45 2NA SH599254

Mae'n amser paratoi ar gyfer y cyfarfodydd felly dyma fwy o fanylion er mwyn i chi gael gwneud penderfyniad.

Teithiau

Mae'n bosib y bydd amrywio ychydig ar y dydd ond dyma yw'r bwriad.

Dydd Sadwrn

1. Taith heriol ar hyd y grib
Moel y Gyrafolen, Diffwys, Foel Penolau, Moel Ysgyfarnogod, Bwlch Gwylim, Craig Wion, Bwlch Tyddiad, Rhinog Fawr, Rhinog Fach, Llethr, Moelfre, Tyddyn Llidiart.
Mae'n bosib gorffen ar ôl Rhinog Fawr a cherdded drwy Gwm Nantcol i Dyddyn Llidiart.
Byddwn yn cychwyn o Nant Pasgan-bach (649365) neu Tŷ'n Twll (686358), yn ddibynnol ar ba drefniant teithio, sydd yn ddibynnol ar y nifer.
2. Taith ar hyd llwybrau o Landecwyn i Dyddyn Llidiart
Mae hon yn daith hawdd gyda golygfeydd gwych; tua 6 awr

Dydd Sul

1. Gorffen y Grib i'r Bermo
Crib-y-rhiw, Diffwys, Llawllech, Bwlch y Rhiwgyr, Bwlch Cwm Maria, Bwlch y Llan ac i lawr i'r Bermo.
2. Dros Bont Sgethin at Grib Llawllech ac yna i'r Bermo fel taith 1.
Taith weddol hamddenol o tua 5 awr.

Gobeithio y gellir trefnu i daith 1 a 2 ymuno i orffen .

Bydd cludiant wedi ei drefnu o Lanbedr i'r man cychwyn ar gyfer y ddwy daith dydd Sadwrn. Ar y dydd Sul bydd trefniant i gludo pawb yn ôl o'r Bermo.

Mae lle i wersylla yn Tyddyn Llidiart a defnydd o gyfleusterau yn y tŷ. Bydd posib hefyd cael dŵr poeth a defnydd o ficrodon yn y boreau.

Mae dau westy yn Llanbedr, Tŷ Mawr a'r Victoria, ac amryw o lefydd gwely a brecwast. Mae rhai wedi archebu lle yn Tŷ Mawr.

Ar nos Sadwrn bydd bwyd yn Tyddyn Llidiart i bawb sydd yn aros (yn cynnwys rhai sydd yn aros mewn gwestai) a hefyd i rai sydd yn dod am y dydd ac am aros i ymuno â ni gyda'r nos.

Mae'n amlwg bod gwaith trefnu felly mae'n rhaid cael enwau erbyn Mai 19 gyda'r manylion yma:

Aros neu am y dydd

Os am wersylla yn Tyddyn Llidiart

Os am ddod am y dydd a fyddwch yn aros i ymuno â ni gyda'r nos

Pa deithiau a fwriedir
E -bost neu rif ffôn i gysylltu

Cysylltwch â

eirlyswyn@timicomail.co.uk

01341 241391

neu

iolynjones@intamail.com

07767 445503